# SL(5)640 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/206) (Cy.48) sy'n cynnwys mesurau i atal plâu ac afiechydon sy'n niweidiol i blanhigion rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019.

Diben y Rheoliadau hyn yw cynnal bioddiogelwch.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Atodlen 3 i Reoliadau 2020 o ran rheolau ar gyfer yr achosion pan ganiateir cynnal gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar nwyddau penodol wrth bwyntiau rheoli a phan ganiateir cynnal gwiriadau dogfennol ar bellter oddi wrth safleoedd rheoli ar y ffin, ac o dan ba amodau y caniateir gwneud hynny.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3 (i) - ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Ffioedd Iechyd Planhigion sy'n daladwy i Weinidogion Cymru.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Tachwedd 2020**